# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Swyddogion gorfodi amaethyddol*

## 8 Penodi swyddogion

(1) Caiff Gweinidogion Cymru benodi swyddogion i weithredu yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i swyddog, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos rhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos bod gan y swyddog yr awdurdod i weithredu.

(3) Os ymddengys i swyddog, wrth iddo weithredu at ddibenion y Ddeddf hon, nad yw unrhyw berson y mae'r swyddog yn ymdrin ag ef yn ymwybodol bod y swyddog yn gweithredu yn y fath fodd, rhaid i'r swyddog hysbysu'r person am y ffaith honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 8.